

## Ardaloedd Blodau Gwylt: Nodyn Cyfarwyddyd

*Mae Cyngor Sir y Fflint yn creu ardaloedd blodau gwylt*

Pam ydyn ni'n creu ardaloedd blodau gwylt?

**I greu cynefin pwysig i bryfed, adar a mamaliaid a sefydlu cysylltiadau naturiol drwy ein hardaloedd trefol.** *Mae blodau trefol wedi profi i gefnogi rhywogaethau peillio. Mae 1 o bob 3 llond ceg o'n bwyd angen pryfed ar gyfer peillio.*

**I greu lle brafiach ar gyfer cerdded a hamdden.** *Mae'n edrych yn brafiach ac mae treulio amser mewn lle naturiol wedi profi i wneud i bobl deimlo'n dawelach.*

**Gall cynyddu llystyfiant naturiol helpu i leihau llygredd yn yr aer.** Gall llystyfiant naturiol sy'n tyfu mewn lleoliad trefol gynyddu dyddodiad llygredd aer o'r aer ar wyneb planhigion, gan wneud yr aer yn lanach i'w anadlu.

**Gall ardaloedd naturiol helpu i leihau llifogydd dŵr wyneb.** *Gall dŵr glaw trwm gael ei amsugno i'r tir athraidd a thrwy systemau gwreiddyn planhigion sydd i gyd yn lleihau maint a chyflymder symudiad dŵr.*

**Mae ardaloedd naturiol yn bwysig i helpu i arafu effaith newid hinsawdd.** *Mae tyfu llystyfiant yn amsugno carbon o'r awyrgylch ac yn ei storio fel biomas.*

Mae'n ddyletswydd arnom i geisio "cynnal ac ymestyn bioamrywiaeth" lle bynnag bo hynny'n bosibl wrth arfer ein swyddogaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae'n ofynnol cynnal datblygiad cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Byddwn yn creu ardaloedd bywyd gwylt gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

**Twf araf:** Mae'r rhain yn ardaloedd o laswelltir sydd fel arfer yn dal gyda rhywfaint o amrywiaeth y byddwn yn ei wella'n raddol drwy ei reoli'n gywir. Nid ydym yn ychwanegu unrhyw beth i'r glaswelltir, rydym yn ceisio caniatáu i hadau sy'n parhau yn y banc hadau i dyfu. Mantais y dull hwn yw y bydd unrhyw flodau gwylt sy'n ymddangos bob amser wedi bod yn y safle hwnnw. Mae'n broses arafach a byddwn yn gweld y blodau gwylt a'r amrywiaeth yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd.

**Plannwyd:** Mae'r rhain yn ardaloedd sydd wedi colli llawer o'u hamrywiaeth. Byddwn yn rhoi help llaw iddynt drwy blannu rhai blodau gwylt brodorol fel plwg (sy'n blanhigion bach) neu fel bylbiau, byddwn yn plannu plygiau neu fylbiau yn y gwanwyn neu'r hydref.

**Cyflwynwyd:** Mae'r rhain yn ardaloedd gyda llai o amrywiaeth bywyd gwylt yn aml glaswelltir amwynder i ffwrdd o unrhyw safleoedd sensitif lle byddwn yn ddod â thywarchen bywyd gwylt neu hadau ar y safle. Fel arfer mae'r llystyfiant presennol yn cael ei symud. Gall tywarchen neu hadau bywyd gwylt sefydlu ardaloedd blodau gwylt dros amser byrrach yn llwyddiannus yn gyffredinol.

### Sut fydd yr ardaloedd hyn yn cael eu rheoli?

Mae'r ardaloedd hyn angen cael eu rheoli'n gywir i sicrhau bod blodau gwyllt yn ffynnu yn y tymor hir.

Mae'r ardaloedd fel arfer angen gallu tyfu a blodeuo drwy'r gwanwyn a'r haf yna eu torri yn hwyr yn yr haf ar ôl gosod hadau, mae hyn yn sicrhau bod yna hadau i dyfu yn y dyfodol. Ar ôl torri, mae angen tynnu'r toriadau i atal y maeth rhag dychwelyd i'r ddaear. Mae'n well gan flodau gwyllt bridd gyda diffyg maeth.

Bydd rhai safleoedd yn cael budd o doriad ychwanegol yn y gwanwyn (oddeutu Ebrill) i gadw glaswellt trech o dan reolaeth.

Rydym yn gosod arwyddion bach ar safleoedd lle rydym yn rheoli ardal ar gyfer blodau gwyllt i sicrhau y rheolir yn gywir.

I gael mwy o wybodaeth am flodau gwyllt ewch i <https://www.floralocale.org/HomePage>

Os hoffech wybod mwy am yr hyn y gallwch ei wneud i helpu ein blodau gwyllt ewch i'n gwefan <http://www.sirfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Countryside-and-Coast/Home.aspx>